

# Meini Prawf Ariannu:

## Sefydliad Addysgol John Vaughan

Fe sefydlwyd Sefydliad Addysgol John Vaughan ar gyfer y rhai sy'n byw ym mhlwyf Llangynog, Sir Gaerfyrddin i:

- Annog, cefnogi a hyrwyddo dysgu gydol oes a chyrhaeddiad addysgol anstatudol, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar,
- Annog, cefnogi a hyrwyddo lles ysbrydol a gwella bywydau pobl ag adnoddau prin.

### Grantiau ar gael

- Gall unigolion wneud cais am grantiau o hyd at £500
- Gall elusennau, grwpiau di-elw a sefydliadau yn y plwyf wneud cais am grantiau o hyd at £1,000

### Pwy a all ymgeisio?

- Rhieni a/neu ofalwyr plant a phobl ifanc hyd at a chan gynnwys 18 oed neu unigolion hŷn sy'n breswylwyr llawn amser ar hyn o bryd ym mhlwyf Llangynog yn Sir Gaerfyrddin, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu haddysg a dysgu, ar yr amod nad yw'r fenter yn disgyn o fewn y ddarpariaeth statudol.
- Elusennau, grwpiau di-elw a mudiadau sy'n cynnig prosiectau a gweithgareddau yn y plwyf ee clybiau ar ôl ysgol, grwpiau gwisg unffurf, prosiectau amgylcheddol, clybiau cinio ac yn y blaen)

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n dangos orau sut maent yn diwallu amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi derbyn cefnogaeth o'r blaen gan y Gronfa hon.

### Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais drwy wefan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Gellir hefyd anfon ceisiadau drwy e-bost i [grants@communityfoundationwales.org.uk](mailto:grants@communityfoundationwales.org.uk)

Nodwch, os gwelwch yn dda:

- Ni ddyfernir grantiau yn ôl-weithredol, hynny yw, ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn y llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi'r telerau ac amodau
- Ni chefnogir prosiectau sy'n perthyn i'r sector statudol e.e. unrhyw beth sy'n rhan o'r cwricwlwm ysgol
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos yr angen ariannol/cymdeithasol y bydd y grant yn ei ddiwallu
- Ni ddyfernir grantiau tuag at gostau lle mae cymorth ariannol ar gael o ffynhonnell arall e.e. ffioedd dysgu lle mae'r ymgeisydd yn gymwys i gael benthyciad i fyfyrwr
- Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried unwaith y flwyddyn gyda dyddiad cau blynyddol o 31ain Fai